

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain Hydref 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Ffion Williams, Maria Roberts, Cynghorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto Jones, Ieuan Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22ain Awst 2018.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.2] Baner Bro Hiraethog

Dywedodd y clerc bod y faner wedi ei gosod yn y clwb snwcer.

[1.3] Grŵp Cynefin/ Anghenion Tai Cymuned Cerrig-y-Drudion

Croesawyd Ms Catrin Roberts i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad o'r gwahanol gynlluniau gan Grŵp Cynefin sydd ar gael i wneud cefnogaeth ariannol tuag at brynu eiddo.

[1.4] Cwmni Innogy /Fferm Wynt Clocaenog

Nodwyd bod y cwmni yn bwriadu cynnal cyfarfod yn y dyfodol agos.

[1.5] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud a bod y Cyngor Sir yn datgan bod y gwaith ar y rhestr i gael sylw.

[1.6] London House

Cyfeiriodd y clerc at sylwadau gan y Cyngor Sir yn datgan nad oedd y Cyngor yn barod i osod terfyn [ffens] ar fin y ffordd i atal rhag i pobl yn enwedig plant groesi heb ofal.

[1.7] Arwydd Cyflymder Stryd King

Deallwyd nad yw'r arwydd yn gweithio fel y dylai, hefyd yn arferol ei fod i gael ei symud pob yn ail i safle gyferbyn a'r ysgol . Y clerc i wneud ymholiadau.

[1.8] To'r Shelter

Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y Brif Agenda

[1.9] Ceisiadau Cynllunio

[a] Cymeradwyo materion sy'n ofynnol dan amodau caniatâd cynllunio cyf -0/40828

Capel Moriah, Stryd y Brenin. Nodwyd fod y Cyngor eisoes wedi gwneud sylwadau ar y cais yma.

[b] Tystysgrif cyfreithlondeb arfaethedig, Traeth Llyn Brenig.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Cyfeiriodd y clercc at y materion canlynol a godwyd yn yr adroddiad

[a] Nid yw'r ychwanegiadau yn y flwyddyn wedi ei cynnwys yn y ffurflen flynyddol

[b] Adran 1 –Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth

[c] Cofnodion

[d] Cronfeydd wrth gefn

[e] Statws fel cyflogwr

[c] Pwerau gwariant -pŵer A137 yn cael ei defnyddio'n anghywir
Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Y clercc i gywiro'r argymhellion.

[2.1] Peiriant Twll yn y Wal

Nodwyd llythyr oddiwrth Llŷr Gruffydd AC ynglŷn â nad oedd y gwasanaeth bellach am ddim yn y peiriant arian parod wrth Gwesty'r Saracens. Deallwyd ei fod mewn cysylltiad a Cardtronics ac y bydd yn cysylltu eto ynglŷn â'r mater.

[2.2] Clercc y Cyngor

Penderfynwyd gosod cyflog y clercc yn unol â thaliadau NALC LC1 yn gymharol i 3 awr yr wythnos. £1457.00 y flwyddyn.

[2.3] Sefydliad Addysgol Cerrig-y-Drudion

Cytunodd Prys Ellis i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y sefydliad.

[2.4] Draen dan y ffordd / Bryn Aber

Deallwyd fod y draen angen sylw. Y clercc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

[2.5] Ymddiriedolaeth Parc [Cae Llwyd]

Cytunodd Maria Roberts i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod yr ymddiriedolaeth ar y 25ain Hydref 2018.

[2.6] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn

[a] Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst £500.00

[b] Clwb Peldroed Cerrigydrudion £200.00

[2.7] Y Llyfrgell

O ganlyniad costau annisgwyl, penderfynwyd trosglwyddo £1,000.00 i gyfrif y llyfrgell